

Ymgynghoriad ar gynigion i gynyddu ein ffioedd cofrestru

3 Tachwedd 2025



Cynnwys

- 3** Ynglŷn â'r NMC
- 4** Crynodeb gweithredol
- 6** Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn
- 8** Cyd-destun
- 12** Ein sefyllfa ariannol
- 14** Ein cynigion
- 15** Rheoleiddio modern ac effeithiol
- 16** Cymhariaeth o ffioedd adnewyddu blynyddol rheoleiddwyr proffesiynol iechyd a gofal ledled y DU
- 17** Cymorth ariannol i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio
- 18** Asesiadau effaith
- 20** Cwestiynau'r ymgynghoriad
- 22** Sut i ymateb



Ynglŷn â'r NMC

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer mwy na 853,000 o nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio. Mae 1 o bob 50 o bobl o oedran gweithio yn y DU ar ein cofrestr. Rydym yn gyfrifol am amddiffyn y cyhoedd trwy gofrestru ac addysgu ein gweithwyr proffesiynol, gosod a chynnal safonau gan gynnwys y Cod, ac ymchwilio i bryderon a gweithredu arnynt.

Rydym yn adeiladu NMC newydd – un sy'n ysbrydoli ymddiriedaeth a hyder. Mae angen i'r cyhoedd a wasanaethwn, y proffesiynau a reoleiddiwn, a'r cyrff yr ydym yn gweithio gyda nhw fod yn rheoleiddiwr cryf ac annibynnol. Fodd bynnag, ar ôl rhewi'r ffioedd cofrestru am y degawd diwethaf, mae ein hincwm wedi gostwng 28%, o'i gymharu â lle byddai wedi bod pe baem wedi cadw i fyny â chwyddiant, ac rydym bellach mewn perygl o beidio â chael digon o gyllid i gyflawni ein gwaith. Mae hyn yn golygu efallai na fyddwn yn gallu parhau i fuddsoddi mewn:

- Sicrhau bod Addasrwydd i Ymarfer yn amserol ac yn deg
- Diweddarau ein Cod a'n safonau i gefnogi ymarfer diogel ac effeithiol yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth
- Sicrhau ansawdd a diogelwch addysg nyrsio a bydwreigiaeth
- Adeiladu diwylliant gwrth-hiliol cryf
- Sicrhau technoleg a data sy'n addas at y diben.

Crynodeb gweithredol

Gan gofio pwysau costau byw, nid ydym wedi codi ein ffioedd ers 10 mlynedd. O ganlyniad, mae gwerth ein hincwm ffioedd wedi gostwng 28%¹ mewn termau real dros y cyfnod hwnnw, ar adeg pan fo ein gwaith wedi cynyddu o ran cyfaint a chymhlethdod, a'n costau ein hunain wedi codi. Pe byddem wedi cynyddu'r prif ffi yn unol â chwyddiant dros y cyfnod hwn, byddai bellach yn £166² a phe byddem wedi cynyddu ein holl ffioedd yn unol â chwyddiant, byddem wedi elwa o incwm ychwanegol o £180 miliwn yn y 10 mlynedd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026.

O ganlyniad, gan nad ydym wedi cynyddu ein ffioedd yn unol â chwyddiant, wrth ehangu ein gweithlu i ddelio â'n llwyth gwaith mwy a mwy cymhleth, rydym yn wynebu pwysau ariannol dwys. Mae'n rhaid i ni nawr dynnu ar ein cronfeydd wrth gefn – gan wario mwy na'n hincwm er mwyn cyflawni ein rôl statudol a gwneud buddsoddiadau yn y meysydd y mae'n rhaid i ni eu gwella. Yn 2023–24 gwariwyd £1.1 miliwn yn fwy nag a godwyd o'r ffi. Y llynedd, roedd ein diffyg yn £19 miliwn ac eleni rydym yn wynebu diffyg rhagamcanol o hyd at £27 miliwn. Nid yw'n gynaliadwy i ni barhau i ariannu ein gwaith dyddiol o gronfeydd wrth gefn. Yn unol ag arfer gorau, ein nod yw cael yr hyn sy'n cyfateb i dri i chwe mis o gostau gweithredu wrth gefn, rhag ofn y bydd amgylchiadau annisgwyl. Rydym bellach mewn perygl o gyrraedd lefelau anniogel o gronfeydd wrth gefn erbyn haf 2027.

Rheoli ein costau

Er mwyn rheoli ein costau, ym mis Hydref 2025, cyhoeddwyd cynigion i gael gwared ar 145 o rolau o'n cyfrif pennau. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 10% yn ein gweithlu. Rydym yn gwneud arbedion pellach mewn costau nad ydynt yn gostau staff o £3.1m y flwyddyn.

Ond ni fydd lleihau ein nifer staff a lleihau costau nad ydynt yn gostau staff yn ddigon.

Ein cofrestr o fwy na 853,000 o nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yw'r gofrestr broffesiynol fwyaf yn y DU ac un o'r rhai mwyaf yn y byd.

Mae angen digon o gyllid i gyflawni ein gwaith pwysig – ond dros y 10 mlynedd diwethaf rydym wedi bod yn tan-godi tâl am ein gwaith.

Yr hyn rydym yn ei gynnig

Rydym bellach yn ymgynghori ar gynnydd yn ein ffioedd am y tro cyntaf mewn 10 mlynedd. Rydym yn cynnig codi ein prif ffi gofrestru³ gan swm sy'n cyfateb i £1.92 y mis. Byddai hyn yn golygu cynnydd o £120 y flwyddyn i £143.

I'r rhai cofrestredig hynny sy'n talu mewn rhandaliadau chwarterol, bydd hyn yn £5.75 ychwanegol bob tri mis.

I ymgeiswyr â chymwysterau rhyngwladol, rydym yn cynnig cynyddu'r ffi gofrestru gychwynnol o £153 i £182.

Rydym hefyd yn cynnig cynyddu'r holl ffioedd cofrestru eraill, sy'n cynnwys y ffioedd ar gyfer gwerthuso cymwysterau rhyngwladol a ffioedd ar gyfer ychwanegu cymwysterau ychwanegol at y gofrestr.



Rydym yn
cynnig codi ein
prif ffi o **£120**
y flwyddyn
i **£143**.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r holl newidiadau rydym yn eu cynnig i'r ffioedd. Mae'n cynnwys dadansoddiad ariannol o'r incwm sydd ei angen arnom i allu parhau i gyflawni ein gwaith rheoleiddio ac yn nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hincwm yn effeithiol.

Dweud eich dweud



Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor am 12 wythnos o 3 Tachwedd 2025 i 26 Ionawr 2026.

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â gofynion erthyglau 7 a 47 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, byddwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r newidiadau arfaethedig i'r rheolau i'n Cyngor yng ngwanwyn 2026. Os bydd ein Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion, bydd yn gwneud y gwelliannau i'n rheolau ffioedd, cyn eu cymeradwyo'n derfynol gan y Cyfrin Gyngor. Gallai'r ffi newydd ddod i rym ym mis Hydref 2026. Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar ôl unrhyw newidiadau a wneir gan y Cyngor yng ngwanwyn 2026. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein Hasesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) ar yr un pryd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein cynigion polisi. Gellir dod o hyd i'r Gorchymyn Diwygio rheolau drafft ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar [wefan yr NMC](#). Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddeall effaith ein cynlluniau, gan gynnwys ar grwpiau sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r ddeddfwriaeth berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.



Mae'r arolwg yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau. Gallwch ymateb [yma](#).

Rydym am glywed gennych, ond mae cymryd rhan yn yr arolwg hwn yn ddewisol. Gallwch hepgor unrhyw adran o'r ymgynghoriad nad yw'n berthnasol i chi. Yr eithriad yw'r cwestiynau 'Amdanoch chi' lle rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall i ba raddau yr ydym wedi clywed gan ystod amrywiol ac eang o bobl. O fewn yr adran hon gallwch ddewis 'Gwell gennyf beidio â dweud' ar gyfer unrhyw wybodaeth nad ydych am ei rhannu. Byddwn yn dadansoddi ymatebion ar ran sefydliadau ar wahân i ymatebion gan unigolion, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb.

Os ydych yn ymateb fel unigolyn ni fyddwn yn gofyn am eich enw, sy'n golygu na fyddwch yn gallu newid eich ymatebion ar ôl i chi eu cyflwyno. Ni fyddwn chwaith yn gallu darparu cofnod o'ch ymatebion.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn ni'n gofyn am eich enw chi ac enw'r sefydliad. Gofynnwn i chi roi enw eich sefydliad, ond mae gennych chi'r opsiwn o aros yn ddienw os dymunwch.

Bydd yr holl ddata a rennir (ac eithrio enw'r sefydliad) yn cael ei agregu a'i ddienwi (mae hyn yn golygu cael gwared ar unrhyw beth a allai eich adnabod chi neu unrhyw un arall a grybwyllir yn y data).



Bydd eich data personol yn cael eu casglu a'i storio yn unol â'n polisi preifatrwydd [yma](#).

Os na allwch chi gyflwyno'ch ymateb gan ddefnyddio'r arolwg ar-lein, cysylltwch â ni yn consultations@nmc-uk.org am fformat amgen. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

Cyd-destun

Mae'r ffioedd cofrestru a delir gan nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn cyfrif am tua 97% o'n hincwm. Y 3% arall yw incwm a enillir ar ein cronfeydd wrth gefn o arian parod a buddsoddiadau. Nid ydym yn derbyn cyllid gan y DU na llywodraethau datganoledig. Mae hyn yn sicrhau ein statws annibynnol fel rheoleiddiwr.⁴

Mae ffioedd cofrestru yn cyfrif am tua **97%** o'n hincwm.



Ein hamcan cyffredinol fel y'i nodir yn y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth yw amddiffyn y cyhoedd, a ddiffinnir ymhellach gan ein deddfwriaeth fel:

- diogelu a hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn ein proffesiynau
- hyrwyddo a chynnal safonau a ymddygiad proffesiynol priodol yn ein proffesiynau.



Rydym yn cyflawni'r diben hwn drwy swyddogaethau statudol penodol sy'n unigryw i'r NMC:

- Sefydlu a chynnal cofrestr o nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio cymwys
- Sefydlu a chynnal safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad ar gyfer nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio – gan gynnwys y Cod
- Cymeradwyo a monitro rhaglenni addysg
- Ymchwilio i bryderon ynghylch ymddygiad neu arfer cofrestryddion a chymryd camau pan fo angen i amddiffyn y cyhoedd.

Mae gennym hefyd rwymedigaethau statudol fel corff cyhoeddus nad ydynt wedi'u nodi yn ein deddfwriaeth, megis dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb neu ofynion i gydymffurfio ag ymholiadau statudol.

Cyfaint a chymhlethdod cynyddol gwaith

Mae cymhlethdod a chyfaint ein gwaith wedi tyfu dros y degawd diwethaf, wedi'i yrru gan ddisgwyliadau'r cyhoedd a mwy o weithgarwch ynghylch ansawdd a diogelwch gofal iechyd. Mae anfodlonrwydd cleifion a'r cyhoedd ag iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrannu at gynnydd mewn atgyfeiriadau addasrwydd i ymarfe.

Ers y cynnydd diwethaf mewn ffioedd, mae ein cofrestr wedi tyfu o 686,782 i 853,707⁵ ac mae bellach yn cynrychioli 1 o bob 50 o boblogaeth oedran gweithio'r DU. Mae ein gweithgareddau hefyd wedi cynyddu i gyd-fynd â thwf y gofrestr. Yn 2018, daethom yn rheoleiddiwr ar gyfer proffesiwn newydd yn Lloegr – cymdeithion nyrsio.

Rydym bellach yn sicrhau ansawdd mwy o raglenni addysg: ar hyn o bryd, rydym yn goruchwyllo 99 o sefydliadau addysg cymeradwy (AEIs) ledled y DU, gan gynnig mwy na 2,527 o raglenni sy'n gwasanaethu mwy na 115,000 o fyfyrwyr. Mae mwy o AEIs yn gweithio gyda phartneriaid lleoli sydd dan bwysau difrifol, ac mae hyn yn cael effaith ar reoli pryderon yn ein gwaith addysg.

Rydym yn
goruchwyllo
99 o sefydliadau
addysg
cymeradwy
ledled y DU


Rydym yn derbyn nifer cynyddol o atgyfeiriadau Addasrwydd i Ymarfer misol. Ym mis Ebrill 2024, roedd cyfartaledd treigl yr atgyfeiriadau yn 499 y mis. Mae'r ffigur hwn wedi codi i gyfartaledd o 574 y mis – cynnydd o 15%.⁶

Mae ein
cyfartaledd
treigl o
atgyfeiriadau
wedi codi i
gyfartaledd o
574 y mis.

Mae mwy o ymholiadau cyhoeddus i ddarpariaeth iechyd a gofal. Rhaid i ni ymgysylltu â'r prosesau cymhleth hyn ac ymateb i argymhellion a wneir gan ymholiadau fel y gallwn ddysgu a gwella. Rydym yn ymwneud yn sylweddol ag ymholiadau'r DU⁷ sy'n gysylltiedig â gofal mamolaeth, gofal cymdeithasol oedolion ac iechyd meddwl.

Mae ein cofrestr wedi tyfu dros y blynnyddoedd diwethaf ac mae hynny wedi cynyddu ein hincwm mewn termau arian parod, ond mae cofrestr fwy yn golygu mwy o waith rheoleiddio i'w gyflawni. Mae ein penderfyniad i rewi ein ffioedd cofrestru wedi arwain at ein hincwm yn 28% yn is nag y byddai wedi bod pe bai ein ffioedd wedi cadw i fyny â chwyddiant, gyda'n £180 miliwn yn ôl hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol. Er nad yw ein hincwm wedi cadw i fyny â chwyddiant, mae ein costau wedi bod yn destun pwysau chwyddiant dros y degawd diwethaf - mae ein biliau cyfleustodau, costau staff, costau cyflenwyr a rhent i gyd wedi cynyddu'n sylweddol. Mae gweithgareddau Addasrwydd i Ymarfer yn cyfrif am dri chwarter o'n gwariant. Mae Ffigur un yn dangos dosbarthiad ein gwariant.

Gwariant y ôl swyddogaeth 2024-25



Ein blaenoriaethau

Yn dilyn cyhoeddi'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol, ym mis Gorffennaf 2024, a amlygodd nifer o heriau o fewn yr NMC, rydym o dan reolaeth newydd ac yn adeiladu NMC newydd.



Wrth i ni drawsnewid ein perfformiad, rydym yn buddsoddi yn:

- Sut rydym yn ymdrin ag achosion Addasrwydd i Ymarfer er mwyn sicrhau eglurder, tegwch ac amserlenni rhesymol
- Diweddarau ein Cod a'n safonau fel bod cofrestreion, myfyrwyr ac addysgwyr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt a gallant ddarparu'r gofal a'r cyngor gorau posibl
- Sicrhau hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel sy'n paratoi nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn iawn ac yn cynnal safonau uchel o ddiogelwch
- Ein gwaith i sicrhau ein bod yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein prosesau rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn deg i bob cofrestrydd ac eraill sy'n gysylltiedig
- Y dechnoleg a'r systemau data cywir yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i weithio'n effeithlon a chefnogi cofrestreion, rhanddeiliaid a'n timau orau.

Rydym yn gweithio mewn amgylchedd gofal iechyd heriol a chyda fframwaith deddfwriaethol cymhleth, hen ffasiwn. Ers blynyddoedd lawer, rydym wedi bod yn gofyn am foderneiddio ein deddfwriaeth, a fyddai'n caniatáu i ni wneud mwy o fesurau effeithlonrwydd, yn enwedig i ddatrys achosion Addasrwydd i Ymarfer yn gynharach heb yr angen am wrandawriad, a fyddai'n lleihau'r gost a'r straen i gofrestreion a thystion. Nid yw diwygio rheoleiddio wedi bod ar y gweill, ond rydym yn falch bod llywodraeth y DU wedi cadarnhau ei hymrwymiad yn ddiweddar i ddisodli ein deddfwriaeth cyn diwedd y senedd bresennol. Bydd hyn yn arwain at fanteision i bawb sy'n ymwneud â'n prosesau, ond bydd angen i ni fuddsoddi mewn newidiadau i wireddu'r manteision hynny.

Ein sefyllfa ariannol

Yn 2024-25, o ganlyniad i gymryd camau i fuddsoddi mewn gwella ein diwylliant sefydliadol a'n perfformiad rheoleiddio, gwariwyd mwy o arian nag a gawsom o ffioedd cofrestreion. Yn 2023-24, gwariwyd £1.1m yn fwy nag a ddaethom i mewn o ffioedd cofrestru. Y llynedd fe wnaethon ni bostio diffyg o £19 miliwn (ar ôl enillion buddsoddi) ac rydym yn rhagweld diffyg o hyd at £27 miliwn ar gyfer 2025-26. Os na fyddwn yn cynyddu ein ffioedd - ynghyd â chymryd camau i leihau ein costau - rydym mewn perygl o gyrraedd lefelau anniogel ein cronfeydd wrth gefn erbyn haf 2027.

Diffyg 2024-25

£19 miliwn

Diffyg amcangyfrifedig
2025-26

£27 miliwn

Mae angen i ni nawr bontio'r bwlch rhwng yr hyn y mae'n ei gostio i gyflawni rheoleiddio proffesiynol effeithiol a'n hincwm sydd ar gael. Gyda'n costau'n fwy na'n hincwm, byddai gwneud dim yn ein hachosi i barhau mewn cylch o orwario. Yn y pen draw, byddem mewn perygl o beidio â chael digon o arian i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

Yn ogystal ag effaith chwyddiant, mae ein rhagolwg ariannol wedi ystyried twf y gofrestr. Rydym wedi gweld twf yn y gofrestr yn arafu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac rydym yn rhagweld y bydd yn fflatio ymhellach i lai na 2% y flwyddyn. Mae hyn wedi'i lywio gan ein data cofrestr diweddaraf sy'n dangos bod nifer y gweithwyr proffesiynol cymwys rhwngwladol a ymunodd â'n cofrestr wedi gostwng bron i draean mewn dim ond un flwyddyn (2024-25). Roedd cyfradd twf lai hefyd mewn gweithwyr proffesiynol cymwys yn y DU a ymunodd â'n cofrestr y llynedd.⁸

Cronfeydd Wrth Gefn

Effaith ein penderfyniad i rewi'r ffi gofrestru, wrth ehangu ein gweithlu i ymdopi â'r twf yng nghyfaint a chymhlethdod y gwaith, yw y bydd ein cronfeydd wrth gefn – ein buddsoddiadau arian parod ac ariannol – wedi lleihau o £101 miliwn ym mis Mawrth 2024 i £45 miliwn erbyn mis Mawrth 2026 a £16 miliwn ym mis Awst 2026. Mae angen i ni ailadeiladu ein cronfeydd wrth gefn fel bod gennym y gwydnwch ariannol hirdymor i ymdopi ag ansicrwydd a buddsoddi yn y dyfodol.

Gyda'r cynnydd arfaethedig yn y ffi, byddem yn disgwyl i'n cronfeydd wrth gefn sefyll ar £27 miliwn ym mis Mawrth 2027. Heb godi'r ffi, byddai ein cronfeydd wrth gefn yn cyrraedd lefelau anniogel erbyn haf 2027.

Camau eraill yr ydym wedi'u cymryd

Rydym yn rheoli ein costau. Ym mis Hydref 2025, cyhoeddwyd cynigion i leihau nifer ein staff 10%, trwy gael gwared ar 145 o rolau o'n strwythur. Rydym hefyd yn gwneud arbedion ar draws costau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflog. Rydym wedi cynnal ein 23 swyddfa yn Portland Place oherwydd rhent isel iawn o £250 y flwyddyn. Rydym wedi hepgor gwaith adnewyddu a gynlluniwyd ac wedi arafu cyflymder buddsoddi mewn technoleg.

Rydym wedi gallu amsugno pwysau cost i ryw raddau drwy ein polisi buddsoddi, sy'n anelu at wneud y mwyafrif o elw ar ein balansau arian parod y gellir eu buddsoddi. Yn 2023–24, cyfrannodd incwm buddsoddi ac enillion ar ein buddsoddiadau £7 miliwn at ein cronfeydd wrth gefn – ond nid yw'n debygol y bydd y symiau hyn yn cael eu hailadrodd wrth i gyfraddau llog a'n balansau arian parod ostwng.

Rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn mynd i'r afael â'n llwyth achosion Addasrwydd i Ymarfer drwy gynyddu cymorth gwaith achos ac rydym yn cyflymu ein Cynllun Gwella Addasrwydd i Ymarfer.

Ein cynigion

Rydym yn ymgynghori ar gynigion i gynyddu'r holl ffioedd cofrestru fel y nodir yn y tabl canlynol.

Math o ffi	Ymgeiswyr y DU	Ffioedd presennol	Ffi newydd a gynigir
Ffi cais cofrestru cychwynnol	Ymgeiswyr y DU	£120	£143
Ffi cais cofrestru gychwynnol	Ymgeiswyr tramor	£153	£182
Ffi gadw (a delir yn flynyddol ar ben-blwydd cyntaf ac ail ben-blwydd cofrestru)	Pawb	£120	£143
Ffi adnewyddu (a delir ar ddiwedd y cyfnod cofrestru ar y trydydd pen-blwydd)	Pawb	£120	£143
Ffi werthuso (i werthuso cymwysterau rhwngwladol ac asesu cymhwysedd i wneud cais i gofrestru)	Ymgeiswyr tramor	£140	£167
Ffi ymgeisio am gofrestru cymhwyster cyn-gofrestru ychwanegol	Pawb	£23	£27
Ffi ymgeisio am gymhwyster cofnodadwy (cymwysterau ôl-gofrestru)	Pawb	£25	£30
Cais am ail-dderbyn neu adfer i'r gofrestr	Pawb	£120	£143

Bydd y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd yn dechrau cryfhau ein sefyllfa ariannol yn rhan olaf 2026-27 a byddant yn rhoi tua £20 miliwn ychwanegol i ni mewn blwyddyn lawn o 2028-29.

Rheoleiddio modern ac effeithiol



Bydd rheoli llwyth achosion Addasrwydd i Ymarfer yn parhau i fod yn brif faes gwariant i ni am y dyfodol rhagweladwy. Rydym wedi ymrwymo i:

- cyflawni canlyniadau cyflym a theg
- rheoli a chyfeirio achosion nad ydynt ar ein cyfer ni yn briodol, fel y gallwn ganolbwyntio ar y rhai sydd angen camau rheoleiddio
- gwella diogelwch ar gyfer cofrestreion a thystion
- ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein prosesau gwneud penderfyniadau a chymryd camau i atal rhagfarn yn ein prosesau gwneud penderfyniadau fel bod gan bawb hyder yn ein penderfyniadau.



Ond mae angen i ni hefyd fuddsoddi mewn gwaith rheoleiddio craidd arall ac mewn moderneiddio ein systemau gan gynnwys:

- diweddarau ein safonau, y Cod a'r dull ailddilysu gyda'r nod o ddarparu cymorth mwy effeithiol i'n cofrestreion sy'n gweithio mewn cyd-destun sy'n newid gyda disgwyliadau gofal sy'n esblygu
- buddsoddi mwy yn ein sicrwydd ansawdd addysg i wneud yn siŵr bod myfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio yn cael eu haddysgu'n ddiogel ac yn effeithiol
- rheoleiddio ymarfer uwch
- uwchraddio technoleg a gwella data i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a gwasanaethau gwell
- buddsoddi mewn gallu staff, a diwylliant a pherfformiad gwell
- paratoi ar gyfer a gweithredu diwygio rheoleiddiol
- meithrin tegwch rheoleiddiol yn ein prosesau, mynd i'r afael â rhagfarn, ac ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant – ym mhopeth a wnawn.

Heb y cynnydd arfaethedig, ni fyddai gennym y modd i symud ymlaen, a fyddai'n ein gadael yn methu â chyflawni ein rhwymedigaethau statudol a diogelu'r cyhoedd yn effeithiol.

Cymhariaeth o ffioedd adnewyddu blynyddol rheoleiddwyr proffesiynol iechyd a gofal ledled y DU

Er bod gwahaniaethau yn y mathau o ffioedd a chyfnodau adnewyddu, mae ein ffi gofrestru flynyddol ymhlith yr isaf a godir gan unrhyw un o reoleiddwyr gweithwyr iechyd a gofal y DU:

Reoeiddiwr	Ffi gofrestru/adnewyddu gyfredol ⁹
Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol	£800
Cyngor Deintyddol Cyffredinol	£621
Cyngor Meddygol Cyffredinol	£463
Cyngor Optegol Cyffredinol	£415
Cyngor Osteopathig Cyffredinol	£570
Cyngor Fferyllol Cyffredinol	£293
Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal	£123.34
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth	£143 (ffi newydd arfaethedig)
Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon	£398
Gwaith Cymdeithasol Lloegr	£120

Cymorth ariannol i nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio

Rydym yn cydnabod bod hwn yn gynnydd sylweddol yn y ffioedd y bydd nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn eu talu i ymuno â'n cofrestr neu aros arni. Mae dau beth a allai helpu:

Rhyddhad trethrelief



Gall cofrestryddion sy'n drethdalwyr yn y DU hawlio'r dreth yn ôl ar ffioedd cofrestru. Gelwir hawlio treth yn ôl yn 'rhyddhad treth' a gellir gwneud hawliadau mewn perthynas â'r pedair blynedd diwethaf o daliadau ffioedd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i hawlio rhyddhad treth drwy ymweld â thudalen we CThEM o'r enw '[Hawlio rhyddhad treth ar gyfer eich treuliau swydd](#)' a dilyn y cyfarwyddiadau.

Talu mewn rhandaliadau chwarterol



Gall cofrestreion ledaenu cost y ffi gofrestru flynyddol mewn pedwar rhandaliad yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, y taliadau chwarterol yw £30. O dan y cynigion, byddai'r taliadau chwarterol yn codi i £35.75. Gellir sefydlu hyn drwy [NMC Ar-lein](#).

Asesiadau effaith

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig a'r rhai nad oes ganddynt nodwedd warchodedig pan fyddwn yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio (dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus).



Rydym yn cydnabod y bydd cynnydd mewn ffioedd yn effeithio ar bob un o'n cofrestreion, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig, cyflog, gradd neu alwedigaeth. Fodd bynnag, rydym wedi nodi bod potensial i gynnydd mewn ffioedd gael effaith andwyol anghymesur ar y grwpiau canlynol sy'n rhannu nodwedd warchodedig:

- **Cofrestreion dros 55** oed a allai benderfynu gweithio'n rhan-amser neu ymddeol yn gynharach. Yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynnydd mewn ffioedd yn 2015, dywedodd dros 50% o gofrestreion dros 55 oed fod cynnydd mewn ffioedd yn debygol o effeithio ar eu penderfyniad i barhau i weithio. Fe wnaeth un sefydliad a ymatebodd gynnal ei arolwg ei hun. Canfu fod hanner y cofrestreion dros 55 oed a ymatebodd i'r arolwg wedi dweud na fyddai'r cynnydd mewn ffioedd yn ei gwneud hi'n economaidd i ddychwelyd i'r gwaith yn rhan-amser
- **Cofrestreion iau a fydd**, fel gweithwyr proffesiynol newydd gymhwyso ar ddechrau eu gyrfaedd, yn y bandiau cyflog is ac yn ad-dalu benthyciadau myfyrwyr
- **Menywod** sy'n fwy tebygol o gymryd absenoldeb mamolaeth na dynion i gymryd absenoldeb tadolaeth a chymryd seibiannau gyrfa neu weithio'n rhan-amser
- **Cofrestreion mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is**. Gall grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill, a chofrestreion anabl, gael eu gorgynrychioli yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Byddwn yn parhau i asesu'r effaith ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodedig wrth i ni dderbyn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn defnyddio ymatebion i ddiweddarau'r asesiad a gynhaliwyd gennym a gall adborth beri i ni newid ein cynigion yn unol â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Byddwn yn cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda chanfyddiadau a chanlyniadau pan fyddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad.

Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg



Dyletswyddau a osodir ar sefydliadau gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg (mewn meysydd gan gynnwys llunio polisïau a llunio polisïau newydd), mewn ffordd sy'n rhoi'r hawl i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith wrth ddelio â'r sefydliadau hynny yw Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r safonau'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r ymatebion i'n cwestiynau ymgynghori, byddwn yn tynnu sylw at unrhyw effeithiau perthnasol, a'n hymateb arfaethedig i'r rhain, yn ein hadroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 1 O ystyried y wybodaeth uchod, i ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n deall y cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithredu ynddo nawr?
- 2 O ystyried yr wybodaeth a rannwyd gennym gyda chi am y cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithredu ynddo nawr, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig i gynyddu'r prif ffi gofrestru yn rhesymol?
- 3 O ystyried yr wybodaeth a rannwyd gennym gyda chi am y cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithredu ynddo nawr, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig i gynyddu'r ffioedd ymgeisio dramor yn rhesymol?
- 4 O ystyried y wybodaeth a rannwyd gennym gyda chi am y cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithredu ynddo nawr, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig i gynyddu'r ffioedd cymhwyso ychwanegol yn rhesymol?
- 5 Ydych chi'n talu eich ffi gofrestru eich hun neu a yw'ch cyflogwr yn eich ad-dalu?
- 6 Ydych chi'n ymwybodol y gallwch dalu eich ffi gofrestru mewn taliadau chwarterol ac, os felly, ydych chi'n gwneud hyn?
- 7 Ydych chi'n ymwybodol y gallwch hawlio rhyddhad treth ar y ffi gofrestru flynyddol, os felly, ydych chi'n gwneud hyn?
- 8 Rydym yn awyddus i ddeall eich barn ar ble mae'r NMC yn canolbwyntio ei fuddsoddiad a'i adnoddau yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r NMC barhau i fuddsoddi yn y meysydd canlynol:
 - Buddsoddi yn y ffordd rydym yn ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer er mwyn sicrhau eglurder, tegwch ac amserlenni rhesymol
 - Diweddarau ein Cod a'n safonau fel bod cofrestreion, myfyrwyr ac addysgwyr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt a gallant ddarparu'r gofal a'r cyngor gorau posibl
 - Sicrhau hyfforddiant ac addysg o ansawdd uchel sy'n paratoi nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn iawn ac yn cynnal safonau uchel o ddiogelwch

-
- Buddsoddi yn ein gwaith i wneud yn siŵr ein bod yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein prosesau rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn deg i bob cofrestrydd ac eraill sy'n gysylltiedig
 - Buddsoddi yn y dechnoleg a'r systemau data cywir yn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i weithio'n effeithlon a chefnogi cofrestreion, rhanddeiliaid a'n timau orau.

9

Wrth feddwl am y newidiadau arfaethedig i ffioedd, a ydych chi'n gallu nodi unrhyw effeithiau posibl – cadarnhaol neu negyddol – ar rai unigolion yn fwy nag eraill yn seiliedig ar eu nodweddion gwarchodedig?

10

Wrth feddwl am y newidiadau arfaethedig i ffioedd, ydych chi'n gallu nodi unrhyw effeithiau posibl – cadarnhaol neu negyddol – ar hyrwyddo'r iaith Gymraeg neu ar siaradwyr Cymraeg?

Sut i ymateb

Rydym yn croesawu adborth gan unrhyw unigolyn yr effeithir arno gan y newidiadau arfaethedig i'n ffioedd cofrestru. Rydym hefyd yn gofyn i chi rannu rhywfaint o wybodaeth amdanoch chi'ch hun fel y gallwn ddeall beth mae gwahanol grwpiau o ymatebwyr yn ei ddweud am ein cynigion. Ni fydd eich sylwadau yn gallu cael eu priodoli i chi.



Gallwch gael mynediad at ein harolwg ar-lein [yma](#). Gallwch hefyd weld Gorchymyn Diwygio drafft (a fyddai'n diwygio'r rheolau presennol trwy fewnosod y symiau ffioedd uwch) [trwy'r ddolen hon](#). Os na allwch gyflwyno'ch ymateb gan ddefnyddio ein harolwg ar-lein, cysylltwch â ni yn consultations@nmc-uk.org am fformat amgen.

Er y gall pob ymatebydd aros yn ddienw, os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn gofyn am eich enw a'ch sefydliad. Byddwn hefyd yn gofyn a ydych chi'n hapus i'ch sylwadau gael eu priodoli i'ch sefydliad wrth adrodd.

Ôlnodiadau

- 1 Yn seiliedig ar fynegai CPI gwirioneddol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer mis Mai 2025.
- 2 Yn seiliedig ar fynegai CPI gwirioneddol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer mis Mai 2025.
- 3 Mae'r term prif ffi gofrestru yn cynnwys y ffi ymgeisio am gofrestru gychwynnol (ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysgedig yn y DU), y ffi gadw, y ffi adnewyddu, y ffi ail-dderbyn a'r ffi adfer.
- 4 Rydym wedi derbyn grant cymorth gan y llywodraeth o bryd i'w gilydd i ariannu darn penodol o waith. Yr enghraifft ddiweddaraf oedd rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn Lloegr, yn 2018-2019.
- 5 Roedd 686,782 o nyrsys a bydwagedd ar y gofrestr ar 31 Mawrth 2015. https://www.nmc.org.uk/globalassets/sitedocuments/annual_reports_and_accounts/annual-report-and-accounts-2014-2015.pdf
- 6 [Adroddiad Blynnyddol ar Addasrwydd i Ymarfer yr NMC 2024-2025](#)
- 7 Er enghraifft, Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Mamolaeth yn Ysbytai Prifysgol Nottingham, Ymchwiliad Ysbyty Abaty Muckamore, Ymchwiliad Thirlwall, Ymchwiliad Lampard ac Adolygiad Annibynnol Iechyd Cymunedol Lerpwl.
- 8 Adroddiad Data Cofrestru Blynnyddol Mawrth 2025 <https://www.nmc.org.uk/about-us/reports-and-accounts/registration-statistics/>
- 9 Dyma'r cyfraddau safonol ar adeg cyhoeddi. Mae rhai rheoleiddwyr, fel HCPC a GMC, yn cynnig gostyngiadau i rai categorïau o gofrestreion.



The nursing and midwifery regulator for
England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales
(1091434) and in Scotland (SC038362).

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk

 @nmcuk

 @nmcnews

 The Nursing and Midwifery Council